

# Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles

## Swydd Ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd:** | Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles |
| **Cyf. Swydd:** | Y-AA-AA001 |
| **Gradd:** | Prif Swyddog |
| **Cyfarwyddiaeth:** | Dysgu a Sgiliau |
| **Lleoliad:** | Swyddfeydd Dinesig, Y Barri |
| **Yn Atebol I'r:** | Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau |

| **Ein Gwerthoedd:** | **Ymddygiad** | **Beth mae'n ei olygu i ni** |
|---|---|---|
| **UCHELGEISIOL** | Meddwl â golwg ar y dyfodol, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol. | Mae uchelgeisiol yn ymwneud â herio ein hunain fel unigolion ac fel sefydliad i wneud yn well ac i newid lle bo angen |
| **AGORED** | Agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud. | Mae bod agored yn ymwneud â sut rydym yn dryloyw yn ein gweithredoedd, ein penderfyniadau a'n cyfathrebu gan sicrhau ein bod yn agored ac yn onest gyda'n cydweithwyr, ein cwsmeriaid a'n cymunedau. |
| **GYDA'N GILYDD** | Gweithio fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a phartneriaid, sy'n parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o safon. | Mae gyda'n gilydd yn ymwneud â gallu unigolyn i gofleidio gwaith tîm, i rannu nod cyffredin gyda chydweithwyr ac i weithio ar y cyd ag eraill |
| **BALCH** | Balch i wasanaethu ein cymunedau ac i fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg. | Mae bod yn falch yn ymwneud â chydnabod pwysigrwydd y gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr a hanfodol a ddarparwn i gymunedau ac unigolion a'r boddhad y mae rhywun yn ei ennill wrth gyflawni ei rôl hyd eithaf ei allu. |

### Trosolwg Rôl

Bydd y Pennaeth Gwasanaeth hwn, sy'n un o dri yn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau, yn cefnogi'r Cyfarwyddwr wrth arwain y gwaith o gynllunio a darparu ystod eang o wasanaethau o fewn cylch gwaith y Gyfarwyddiaeth.

Gan weithio gyda chydweithwyr ar draws y Cyngor, Aelodau etholedig a phartneriaid, byddwch yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth y Cyngor, adeiladu cynlluniau eang y Cyngor, datblygu gwasanaethau a datrys problemau. Bydd hyn yn gofyn i chi feddwl a gweithredu'n strategol y tu allan i'ch cylch gwaith uniongyrchol.

Mae'r swydd yn gyfrifol yn benodol am arwain darpariaeth a gwasanaethau cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae hyn yn cwmpasu gweithrediad graddol y Ddeddf ADY, cefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion cymhleth, seicoleg addysgol, gwasanaethau arbenigol a chyfrifoldeb am unedau adnoddau ADY mewn ysgolion.



# Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles
## Swydd Ddisgrifiad (parhau)

Dosberthir darpariaeth a chyfrifoldeb am wahanol agweddau o les ym mhob rhan o'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau a rhannau eraill o'r Cyngor.  Bydd hyn yn gofyn i chi weithio'n agos gyda chydweithwyr i sicrhau cefnogaeth briodol i ysgolion, disgyblion a theuluoedd.

Bydd deiliad y swydd yn gweithredu fel y Swyddog Arweiniol Dynodedig Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu mewn Addysg, gan gymryd y cyfrifoldeb arweiniol dros gyflawni dyletswyddau diogelu o ran addysg.

Mae'n hanfodol eich bod yn adeiladu ar y berthynas waith dda sydd eisoes wedi'i sefydlu gyda'r holl ysgolion a phartneriaid.  Rhaid i chi allu rheoli adnoddau'n effeithiol ac i geisio ymateb i gyfleoedd ariannu ac ymateb iddynt.

Fel Uwch Arweinydd yn y Cyngor, byddwch yn cefnogi'r gwelliant parhaus yn ein dyheadau diwylliannol, modelu rôl ac ymgorffori ein gwerthoedd, gyrru ymgysylltu ac arloesi, a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.

### A Prif Ddiben y Swydd

1 Gweithredu fel Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth perthnasol o fewn y gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau.

2 Gweithio gyda Chyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau i arwain, rheoli a chyfeirio’r Gyfarwyddiaeth yn strategol.

3 Sicrhau y darperir gwasanaethau effeithiol, effeithlon ac economaidd, sy’n mynd i’r afael ag anghenion pobl Bro Morgannwg ac sy’n cyd-fynd â nodau ac agenda gwella’r Cyngor.

4 Gweithio gydag Aelodau Cabinet, Aelodau Craffu a phob Aelod Etholedig a'u cefnogi yn eu wardiau.

5 Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill y Cyngor a sefydliadau allanol er mwyn cyflawni amcanion cyffredin yn unol â'r Cynllun Corfforaethol.

6 Gweithredu fel Swyddog Arweiniol Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu mewn Addysg gan gymryd cyfrifoldeb arweiniol am gyflawni dyletswyddau diogelu o ran addysg.

### B Cyfrifoldebau Corfforaethol ac Amcanion

7 Sicrhau comisiynu, darparu a gwella gwasanaethau yn barhaus o fewn cylch gwaith y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau ac yn unol â nodau ac amcanion y Cyngor.

8 Cefnogi cyflawniad blaenoriaethau cyllidebol y Cyngor a defnydd effeithiol adnoddau’r Cyngor.







9 Hyrwyddo diwylliant cryf o reoli perfformiad i sicrhau lefelau uchel o berfformiad, cyflawni targedau perfformiad a safonau a gwella a datblygu gwasanaethau'n barhaus.

10 Rhagweld, monitro ac adnabod materion a newidiadau strategol sy'n effeithio ar y gwasanaeth a datblygu ymatebion effeithiol ar gyfer newidiadau o'r fath.

11 Cyfrannu at newid trawsnewidiol ar draws y Cyngor a sicrhau y gweithredir ac yr ymgorfforir mentrau, polisïau a chynlluniau sefydliadau yn briodol.

12 Sicrhau agwedd ymatebol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau.

13 Ymchwilio i gyfleoedd i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.

14 Llunio Cynllun Gwasanaeth blynyddol a sicrhau datblygiad Cynlluniau Tîm ar gyfer y Gwasanaeth dan sylw.

15 Sicrhau bod egwyddorion cyfle cyfartal yn integredig ac yn cael eu dilyn yn weithredol o fewn y Gyfarwyddiaeth ac ym mhob maes o ddarpariaeth gwasanaeth.

16 Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd y Cabinet, cyfarfodydd Craffu a chyfarfodydd eraill y Cyngor fel sy'n briodol.

## C Cyfrifoldebau Ychwanegol

17 Comisiynu/darparu'r swyddogaethau canlynol gan gyflawni safonau ansawdd priodol y cytunwyd arnynt:

- Sicrhau bod anghenion disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi, eu hasesu a bod y ddarpariaeth briodol yn cael ei gwneud.
- Adolygu darpariaeth yn barhaol er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni anghenion, ei bod o safon uchel ac yn effeithlon, gan sicrhau bod fframweithiau ansawdd, contractau a chytundebau lefel gwasanaeth ar waith.
- Lleihau nifer y dysgwyr sy'n cael eu rhoi mewn lleoliadau y tu allan i'r sir, gan weithio gyda gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol.
- Cefnogi ysgolion i sicrhau lles dysgwyr drwy ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau wedi'u targedu.
- Sicrhau darparu gwasanaethau atal, ymyrraeth gynnar a chymorth yn effeithiol mewn partneriaeth ag asiantaethau gwirfoddol a statudol eraill mewn perthynas ag ADY a lles.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau ac arbenigedd mewn ysgolion a lleoliadau eraill mewn perthynas ag ADY.
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr yn eu cynnwys yn effeithiol yn y gwaith o wneud penderfyniadau am ddarparu a datblygu gwasanaethau.
- Sicrhau bod polisïau ac arferion diogelu effeithiol ar waith mewn ysgolion.
- Cyfrannu at y gwaith o nodi ysgolion sy'n achosi pryderon a chyfrannu at y gwaith o'u gwella.
- Datblygu strategaethau mewn ymateb i newid demograffeg ac angen yn unol â gofyniad y Ddeddf ADY.
- Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu fesul cam mewn perthynas â'r Ddeddf ADY.
- Datblygu a chynnal strategaethau ar gyfer ymgysylltiad a chyfranogiad disgyblion.

18 I arwain ar ddull traws-Gyfarwyddiaeth ac aml-asiantaeth o gefnogi datblygiad dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd cymdeithasol, emosiynol, iechyd meddwl a lles.






19 I ymgymryd â’r rôl ddiogelu strategol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth fel y nodir yn adran 2 o’r ddogfen “Cadw Dysgwyr yn Ddiogel” (dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru rhif: 283/2022).

20 I oruchwylio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau cyflogaeth, gofal plant a chymorth i bobl ifanc 11-25 oed.

21 Darparu a hyrwyddo arweinyddiaeth a rheoli perfformiad clir o fewn y gwasanaeth, gan sicrhau perfformiad effeithiol pob rheolwr.

22 Goruchwylio’r gwaith o ddatblygu a chynnal a chadw systemau rheoli perfformiad er mwyn sicrhau bod targedau’n cael eu cyflawni a bod gwasanaethau’n cael eu datblygu’n barhaus.

23 Sicrhau bod y gyllideb ac adnoddau ehangach yn cael eu rheoli, eu cynllunio a’u defnyddio’n effeithiol dros y gwasanaethau perthnasol yn unol â chynlluniau gwasanaeth ac amcanion strategol tymor hirach y Cyngor.

24 Sicrhau bod cyfathrebu clir ac atebolrwydd wedi’i ddiffinio’n dda yn y gwasanaeth.

25 Gwneud y mwyaf o’r incwm a’r cyfleoedd am arian allanol yn unol â Pholisi'r Cyngor.

26 Sicrhau y dilynir polisïau diogelu, iechyd a diogelwch ac amgylcheddol y Cyngor yn llawn ym mhob maes a gwmpesir o fewn cylch gwaith deiliad y swydd a bod polisïau a gweithdrefnau perthnasol wedi'u hintegreiddio'n llawn.

27 Perfformio unrhyw ddyletswyddau eraill sy’n ofynnol gan y gyfraith neu yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Gyfarwyddwr.






# Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles
## Manyleb Person

### 1. Profiad a Gwybodaeth

| HANFODOL | DYMUNOL | PROFIR DRWY |
|---|---|---|
| • Gallu dangos profiad arweinyddiaeth strategol/gweithredol perthnasol a diweddar o fewn sefydliad mawr.<br>• Gwybodaeth/dealltwriaeth berthnasol o fewn yr ystod o wasanaethau.<br>• Profiad o ddatblygu strategaethau i gyflawni amcanion busnes.<br>• Profiad o reoli ariannol / perfformio llwyddiannus<br>• Profiad amlwg o reoli newid a thrawsnewid gwasanaeth/sefydliadol yn llwyddiannus<br>• Profiad amlwg o weithio partneriaeth/ cydweithredol.<br>• Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion a heriau Addysg cyfredol, gan gynnwys diogelu. | • Profiad o arolygiadau Estyn. | • Cyflogaeth flaenorol/presennol wedi'i chofnodi ar y ffurflen gais am y swydd.<br>• Geirdaon.<br>• Cyfweliad (ar gyfer ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer).<br>• Cyflwyniad (ar gyfer ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer). |

### 2. Sgiliau a rhinweddau

| HANFODOL | DYMUNOL | PROFIR DRWY |
|---|---|---|
| • Y gallu i gynllunio, comisiynu a sicrhau bod gwasanaethau o safon uchel yn cael eu darparu yn effeithiol .<br>• Sgiliau rheoli perfformiad ac arwain rhagorol.<br>• Y gallu i reoli newid a thrawsnewid gwasanaethau yn effeithiol.<br>• Y gallu i ragweld anghenion gwasanaethau yn y dyfodol a chynllunio a rheoli adnoddau yn unol â diwallu anghenion o'r fath.<br>• Y gallu i weithio'n effeithiol gydag Aelodau Etholedig.<br>• Y gallu i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth a chwilio am gyfleoedd i gydweithio a manteisio arnynt.<br>• Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol.<br>• Sgiliau cynllunio cryf, sefydliadol a datrys problemau.<br>• Sgiliau ardderchog i reoli ac ymgysylltu staff.<br>• Sgiliau dylanwadu a thrafod cryf. | | • Ffurflen gais ac ar gyfer ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer, cwestiynau’r cyfweliad.<br>• Canolfan Asesu. |



# Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles
## Manyleb Person (parhau)

| | HANFODOL | DYMUNOL | PROFIR DRWY |
|---|---|---|---|
| 3. Cymwysterau a hyfforddiant | • Athro neu seicolegydd addysg cymwys. | • Cymhwyster Rheoli Ôl-raddedig. | • Ffurflen gais a dilysu tystysgrifau arholiad. |
| 4. Agwedd a chymhelliant | • Hynod frwdfrydig ac ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.<br>• Gallu defnyddio ystod o arddulliau arwain yn llwyddiannus.<br>• Y gallu i ysgogi ac annog cydweithwyr.<br>• Y gallu i adeiladu partneriaethau cynhyrchiol gyda sefydliadau eraill.<br>• Dealltwriaeth dda o anghenion gwasanaeth yng nghyd-destun agenda ehangach y Cyngor.<br>• Y gallu i ddylanwadu a chyflwyno achos busnes cadarn ar faterion yn ymwneud â gwasanaeth ac i'r Cyngor yn gyffredinol.<br>• Ymrwymiad i agenda cydraddoldeb y Cyngor, gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol ac ymgysylltu â staff. | | • Ffurflen Gais.<br>• Cyfweliad (ar gyfer ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer).<br>• Cyflwyniad (ar gyfer ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer). |
| 3. Arall | • Hygrededd personol a phroffesiynol.<br>• Gyrru, egni a brwdfrydedd i gynnal agenda helaeth.<br>• Y gallu i weithio y tu allan i oriau swyddfa arferol a mynychu cyfarfodydd gyda'r nos yn ôl yr angen.<br>• Gallu gyrru/teithio ar hyd a lled y Fro neu rhwng lleoliadau fel y bo'n briodol.<br>• Siarad Cymraeg / yn barod i ddysgu Cymraeg. | • Bydd cyfradd defnyddwyr ceir achlysurol yn berthnasol os ystyrir ei bod yn angenrheidiol gan y cyngor/eich rheolwr i chi ddefnyddio eich car eich hun. | |

**Cyngor Bro Morgannwg**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Heol Holton**
**Y Barri C63 4RU**
**www.bromorgannwg.gov.uk**